# Datganiad Parth Gwarchod a Gwyliadwriaeth (Ffliw Adar)

Mae'r Prif Swyddog Milfeddygol wedi cadarnhau bod ffliw adar pathogenig iawn yn bresennol mewn ardal yn Lloegr sy'n 3km neu lai o Gymru.

Yn unol ag erthyglau 28(1) a 29(1) o'r Gorchymyn Ffliw Adar a Ffliw sy'n Deillio o Adar mewn Mamaliaid (Cymru) (Rhif 2) 2006[1] ("y Gorchymyn"), ac ar ôl ystyried meini prawf sydd wedi'u nodi yn erthygl 29(5) o'r Gorchymyn, mae Gweinidogion Cymru yn datgan drwy hyn bod yr ardal a ddisgrifir yn **Atodiad 1** i'r Datganiad hwn yn Barth Gwarchod y mae'r holl fesurau a nodir yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn yn gymwys iddo[2].

Yn unol ag erthyglau 28(1) a 29(2) o'r Gorchymyn ac ar ôl ystyried meini prawf sydd wedi'u nodi yn erthygl 29(5), mae Gweinidogion Cymru yn datgan drwy hyn bod yr ardal a ddisgrifir yn **Atodiad 2** i'r Datganiad hwn yn Barth Gwyliadwriaeth y mae'r holl fesurau a nodir yn Atodlen 5 i'r Gorchymyn yn gymwys iddo[3].

Mae'r Parthau Gwarchod a Gwyliadwriaeth wedi'u nodi ar y map yn **Atodiad 3**.

Mae'r mesurau hyn yn gymwys o 17:30 ar 4 Mawrth 2025 hyd nes y caiff y Datganiad hwn ei ddirymu neu ei ddiwygio drwy ddatganiad pellach.

Canolbwynt y Parthau Gwarchod a Gwyliadwriaeth yw cyfeirnod grid SO2753754639.

Llofnodwyd: Gavin Watkins, Dirprwy Brif Swyddog Milfeddygol Cymru

Dyddiedig: ar 17:30 ar 4 Mawrth 2025

O dan awdurdod y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

*Gall methu â chydymffurfio â'r Datganiad hwn fod yn drosedd o dan adran 72 neu 73 o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981.*

Atgynhyrchir atodlenni'r gorchymyn yn **Atodiad 1** a **2** i'r Gorchymyn hwn er hwylustod.

[1] O.S. 2006/2927 (Cy. 262) fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Orchymyn Ffliw Adar (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2023 OS 2023/1179 (Cy.206).
[2] Yn unol ag erthyglau 30(1) o'r Gorchymyn, mae'r mesurau yn Atodlen 4 yn gymwys mewn cysylltiad â pharth gwarchod.
[3] Yn unol ag erthyglau 31(1) o'r Gorchymyn, mae'r mesurau yn Atodlen 5 yn gymwys mewn cysylltiad â pharth gwyliadwriaeth.

Mae copïau o'r Datganiad hwn a'r Gorchymyn ar gael ar dudalennau gwe Llywodraeth Cymru a chan Lywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

## Atodiad 1

### Parth Gwarchod

Mae’r Parth Gwarchod yn cynnwys yr ardal honno o Gymru sydd wedi’i nodi ar y map yn **Atodiad 3,** o fewn y cylch glas o radiws o 3 cilometr sydd yng nghanol cyfeirnod grid SO2753754639. Cyfeirnod grid yr Arolwg Ordnans yw hwn [cyfres Landranger 1:110,000]. Y Parth Gwarchod yw’r ardal o fewn y cylch glas llai ar y map a ddarperir yn **Atodiad 3.**

### Mesurau mewn Parth Gwarchod

### Cofnod o ymwelwyr

**1.** Yn ddarostyngedig i baragraff 5, mae’n rhaid i feddiannydd unrhyw safle yn y parth lle cedwir dofednod neu adar caeth eraill gadw cofnodion o—

(a) enw a chyfeiriad unrhyw berson sy’n ymweld â’r safle (oni bai bod yr ymweliad i ran o’r safle yn unig lle mae pobl yn byw a lle na chedwir unrhyw ddofednod neu adar caeth eraill);
(b) dyddiad yr ymweliad;
(c) a yw’r person wedi cael unrhyw gysylltiad â dofednod neu adar caeth eraill ar y safle.

### Cofnod o ddofednod

**2.** Mae’n rhaid i feddiannydd unrhyw safle yn y parth wneud cofnod o’r holl ddofednod sy’n cyrraedd neu’n gadael y safle hwnnw cyn gynted ag sy’n rhesymol ymarferol ar ôl y symud.

### Cofnod o symudiadau dofednod ac wyau

**3.** Yn ddarostyngedig i baragraff 5, mae’n rhaid i unrhyw berson sy’n ymwneud â chludo neu farchnata dofednod neu wyau dofednod yn y parth wneud cofnod cyn gynted ag sy’n rhesymol ymarferol o’r holl ddofednod ac wyau dofednod y mae wedi’u cludo neu eu marchnata.

### Symudiadau dofednod i’w cofnodi

**4.** Mae’n rhaid i’r cofnodion y cyfeiriwyd atynt ym mharagraffau 2 a 3 uchod gynnwys—

(a) swm a disgrifiad (yn cynnwys rhywogaethau’r dofednod neu fath o wy) a gludwyd neu a farchnatwyd;
(b) yn achos symud o safle yn y parth—
(i) dyddiad y symud o’r safle;
(ii) safle cyrchfan (os yw’n hysbys);
(iii) enw a chyfeiriad y person y mae perchnogaeth neu feddiant yn cael ei drosglwyddo iddo neu wedi’i drosglwyddo iddo;

(c) yn achos symud i safle yn y parth—
   (i) dyddiad y symud;
   (ii) y safle y symudwyd ohono (os yw'n hysbys);
   (iii) enw a chyfeiriad y person y mae perchnogaeth neu feddiant yn cael ei drosglwyddo iddo neu wedi'i drosglwyddo iddo;

(d) yn achos marchnata heb symud cysylltiedig, enw a chyfeiriad y person y trosglwyddwyd y berchnogaeth iddo a'r dyddiad;

**Cwmpas dyletswyddau cadw cofnodion**

**5.** Nid yw paragraffau 1 a 3 yn gymwys mewn cysylltiad â—
(a) symud wyau'n uniongyrchol i safle manwerthu, ar neu o safle o'r fath neu'n dilyn symudiad o'r fath;
(b) symud pobl i sŵau, parciau bywyd gwyllt neu (oni bai ei fod yn ofynnol gan Weinidogion Cymru) unrhyw safle arall sy'n agored i'r cyhoedd, cyn belled nad oes gan y cyhoedd fynediad i unrhyw ardal lle mae adar yn cael eu cadw;
(c) symud y canlynol i unrhyw safle lle mae dofednod neu adar caeth eraill yn cael eu cadw—
   (i) unrhyw berson ar hawl tramwy cyhoeddus neu sy'n defnyddio hawl mynediad i'r safle;
   (ii) tresmaswyr;
   (iii) unrhyw berson sy'n gweithredu'r Gorchymyn hwn.

**Ynysu dofednod ac adar caeth eraill**

**6.** Mae'n rhaid i feddiannydd y safle yn y parth lle cedwir dofednod neu adar caeth eraill sicrhau eu bod—
(a) dan do; neu
(b) wedi eu hynysu (os yw arolygydd milfeddygol yn gorchymyn hynny ar y sail nad yw eu cadw dan do yn ymarferol neu y byddai hynny'n cael effaith andwyol ar les yr adar i raddau sylweddol).

**Mesurau lle nad yw adar yn cael eu cadw dan do**

**7.** Os yw adar yn cael eu hynysu ond nid eu cadw dan do, mae'n rhaid i'r meddiannydd—
(a) sicrhau nad ydynt yn dod i gysylltiad â dofednod neu adar caeth eraill ar safle arall; a
(b) cymryd pob cam rhesymol i leihau eu cysylltiad ag adar gwyllt, yn unol â chyfarwyddiadau arolygydd milfeddygol.

**Cyfyngiadau ar symud dofednod, adar caeth eraill a mamaliaid ar ac oddi ar safle**

**8.** (1) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), ni chaiff unrhyw berson symud dofednod, adar caeth eraill na mamaliaid i neu o safle yn y parth lle cedwir dofednod neu

adar caeth eraill, oni bai bod y symud wedi'i drwyddedu gan arolygydd milfeddygol neu gan arolygydd o dan gyfarwyddyd arolygydd milfeddygol.

(2) Nid yw is-baragraff (1) yn gymwys i anifeiliaid anwes—

(a) sydd ddim ond yn gallu cael mynediad i ran honno o'r safle lle mae pobl yn byw;

(b) nad ydynt yn dod i gysylltiad â dofednod neu adar caeth eraill ar y safle; ac

(c) nad oes ganddynt fynediad i unrhyw gewyll neu ardaloedd ar y safle lle cedwir dofednod neu adar caeth eraill.

**Gwaredu carcasau**

**9.** Mae'n rhaid i'r meddiannydd sicrhau bod pob carcas nad yw wedi'i atafaelu neu ei waredu gan arolygydd milfeddygol yn cael ei waredu yn unol â chyfarwyddiadau arolygydd milfeddygol (oni bai ei fod yn rhoi trwydded i'w defnyddio ar gyfer gwneud diagnosis o glefydau).

**Mesurau bioddiogelwch**

**10.** Mae'n rhaid i'r meddiannydd ac unrhyw berson sy'n cyrraedd neu'n gadael y safle yn y parth lle cedwir dofednod, neu adar caeth eraill neu wyau—

(a) gymryd mesurau bioddiogelwch fel y mae'n ystyried sydd eu hangen i leihau'r risg o ledaenu ffliw adar i neu o'r safle; a

(b) chydymffurfio ag unrhyw ofynion bioddiogelwch y mae arolygydd milfeddygol neu arolygydd o dan gyfarwyddyd arolygydd milfeddygol, drwy hysbysiad iddo, yn eu gosod.

**Sarn, tail dofednod a slyri**

**11.** Ni chaiff unrhyw berson symud na lledaenu sarn dofednod a ddefnyddiwyd, tail dofednod na slyri dofednod yn y parth oni bai bod arolygydd milfeddygol neu arolygydd o dan gyfarwyddyd arolygydd milfeddygol wedi trwyddedu hynny.

**Crynoadau o ddofednod**

**12.** Ni chaiff unrhyw berson ganiatáu i ddofednod neu unrhyw adar caeth eraill gael eu casglu mewn unrhyw ffair, marchnad, sioe, arddangosfa neu unrhyw grynhoad arall yn y parth.

**Rhyddhau adar hela**

**13.** (1) Ni chaiff unrhyw berson ryddhau adar hela.

(2) At ddiben y paragraff hwn, mae adar hela'n cynnwys ffesantod, petris, grugieir coch, grugieir du neu rugieir gwyn neu hwyaid sydd wedi'u magu ar gyfer eu hela.

**Cyfyngiadau ar symud dofednod, wyau, cig dofednod, semen, samplau gwaed a charcasau**

**14.** Ni chaiff unrhyw berson symud unrhyw ddofednod neu adar caeth eraill nac unrhyw wyau, cig dofednod, semen, samplau gwaed na charcasau unrhyw ddofednod neu adar caeth eraill, o fewn neu allan o’r parth oni bai bod y symud—

(a) wedi’i nodi ym mharagraff 16 ac yn—
  (i) uniongyrchol; ac
  (ii) wedi’i drwyddedu gan arolygydd milfeddygol neu gan arolygydd o dan gyfarwyddyd arolygydd milfeddygol;

(b) yn wyau bwrdd sy’n cael eu symud yn uniongyrchol i safle cyfanwerthu neu fanwerthu, neu’n dilyn symudiad o’r fath

(c) o fewn yr un safle.

**Cludiant ar y ffordd a’r rheilffordd**

**15.** Gellir cludo dofednod ac wyau drwy’r parth ar briffordd neu reilffordd os nad oes rhaid aros ar y ffordd o fewn y parth.

**Symudiadau y caiff arolygydd milfeddygol neu arolygydd o dan ei gyfarwyddyd eu trwyddedu**

**16.** Y symudiadau y cyfeirir atynt ym mharagraff 14(a) yw symudiadau fel a ganlyn—

(a) dofednod o safle yn y parth i’w lladd yn syth mewn lladd-dy dynodedig (os bodlonir gofynion paragraff 17);

(b) cig dofednod (os bodlonir gofynion paragraff 18);

(c) dofednod i ladd-dy dynodedig yn y parth o safle y tu allan i’r parth (os bodlonir gofynion paragraff 19);

(d) cywion diwrnod oed sydd wedi deor o wyau a gynhyrchwyd yn y parth neu o wyau a ddaeth i gysylltiad ag wyau o’r fath (os bodlonir gofynion paragraff 20);

(e) cywion diwrnod oed sydd wedi deor o wyau sy’n deillio o’r tu allan i’r parth gwarchod ac a gadwyd ar wahân i wyau a gynhyrchwyd mewn parth o’r fath (os bodlonir gofynion paragraff 21);

(f) dofednod sy’n barod i ddodwy neu ddofednod magu a symud i safle neu ran o safle lle nad oes dofednod yn cael eu cadw (os bodlonir gofynion paragraff 22);

(g) wyau sy’n deor o’r tu allan i’r parth i ddeorfa ddynodedig yn y parth neu i safle dynodedig i’w defnyddio at ddibenion gwyddonol, diagnostig neu fferyllol;

(h) wyau sy’n deor o’r parth—
  (i) i ddeorfa ddynodedig; neu
  (ii) i safle dynodedig i’w defnyddio at ddibenion gwyddonol, diagnostig neu fferyllol

  (os bodlonir gofynion paragraff 23 yn y ddau achos);

(i) wyau i ganolfan pacio wyau ddynodedig (os bodlonir gofynion paragraff 24);

(j) wyau i safle prosesu wyau;

(k) wyau ar gyfer eu gwaredu;

(l) carcasau ar gyfer eu gwaredu neu wneud diagnosis.

(m) dofednod neu adar caeth eraill i filfeddygfa ar gyfer eu trin, neu i ddychwelyd i’r safle y daethant ohono ar ôl symudiad o’r fath;

(n) semen i safle bridio neu i safle sydd wedi'i ddynodi at ddibenion gwyddonol, diagnostig neu fferyllol;
(o) gwaed i labordy neu filfeddygfa at ddibenion gwyddonol neu ddiagnostig.

## Gofynion i symud dofednod o safle yn y parth i ladd-dy dynodedig

**17.** Ni chaniateir symud dofednod i ladd-dy dynodedig oni bai bod y gofynion canlynol yn cael eu bodloni—

(a) bod arolygydd milfeddygol wedi arolygu neu lle bo angen archwilio'r dofednod yn y safle heb fod yn fwy na 24 awr cyn iddynt adael y safle;
(b) bod y dofednod yn cael eu cludo mewn cerbydau sydd wedi'u selio gan arolygydd milfeddygol neu yn unol â'i gyfarwyddiadau;
(c) lle bo hynny'n briodol, bydd profion labordy wedi'u cynnal ar ddofednod ar y safle y daethant ohono yn unol â'r llawlyfr diagnostig; a
(d) os yw'r symudiad o fewn Prydain Fawr, mae'r gweinidog priodol sy'n gyfrifol am y lladd-dy dynodedig wedi cael gwybod ac wedi cytuno i gael y dofednod.

## Gofynion i symud cig dofednod o ddofednod a anfonwyd i ladd-dy dynodedig o safle yn y parth

**18.** Ni chaniateir symud cig dofednod o ddofednod yn y parth o ladd-dy dynodedig oni bai ei fod yn bodloni gofynion erthygl 63(2) o'r Gorchymyn.

## Gofynion i symud dofednod i ladd-dy dynodedig o fewn y parth i safle y tu allan i'r parth

**19.** Ni chaniateir symud dofednod o safle y tu allan i'r parth i ladd-dy dynodedig yn y parth oni bai bod y dofednod yn cael eu cadw ar wahân i ddofednod sy'n deillio o'r parth.

## Cywion diwrnod oed

**20**. (1) Ni chaniateir symud cywion diwrnod oed sydd wedi deor o wyau a gynhyrchwyd yn y Parth neu sydd wedi deor o wyau sydd wedi bod mewn cysylltiad ag wyau o'r fath, oni bai –

(a) eu bod yn cael eu cludo mewn cerbydau sydd wedi'u selio gan arolygydd milfeddygol neu yn unol â'i gyfarwyddiadau;
(b) bod mesurau bioddiogelwch priodol yn cael eu harfer wrth eu cludo ac yn cael eu harfer ar y safle ym mhen y daith.

(2) Ni chaiff meddiannydd y safle y cludir y cywion diwrnod oed iddo yn unol ag is-baragraff (1) symud y cywion diwrnod oed o'r safle hwnnw am gyfnod o 21 diwrnod ar ôl symud y cywion i'r safle.

**Gofynion i symud cywion diwrnod oed sydd wedi deor o wyau sy'n deillio o'r tu allan i'r parth**

**21.** Ni chaniateir symud cywion diwrnod oed sy'n deillio o'r tu allan i'r parth gwarchod oni bai bod y ddeorfa yn y parth gwarchod yn cael ei gweithredu mewn ffordd sy'n golygu na ddaw'r wyau hynny i gysylltiad ag wyau neu gywion diwrnod oed o fewn y parth.

**Gofynion i symud dofednod sy'n barod i ddodwy neu ddofednod magu a symud**

**22.** (1) Ni chaniateir symud dofednod sy'n barod i ddodwy na dofednod magu a symud o'r safle yn y parth oni bai—

- (a) bod dofednod ac adar caeth eraill ar y safle wedi'u harchwilio gan arolygydd milfeddygol; a
- (b) bod y dofednod sy'n barod i ddodwy a'r dofednod magu a symud yn cael eu cludo mewn cerbydau sydd wedi'u selio gan yr arolygydd milfeddygol neu yn unol â'i gyfarwyddiadau.

(2) Ni chaniateir i feddiannydd y safle y caiff y dofednod sy'n barod i ddodwy neu'r dofednod magu a symud eu symud iddo i symud y dofednod hynny o'r safle hwnnw am gyfnod o 21 diwrnod o leiaf o'r diwrnod pan gafodd y dofednod hynny eu symud i'r safle.

**Gofynion i symud wyau sy'n deor o'r parth i ddeorfa ddynodedig neu i safle dynodedig i'w defnyddio at ddibenion gwyddonol, diagnostig neu fferyllol**

**23.** Ni chaniateir symudi wyau sy'n deor o'r parth i ddeorfa ddynodedig, neu i safle dynodedig i'w defnyddio at ddibenion gwyddonol, diagnostig neu fferyllol oni bai—

- (a) bod arolygydd milfeddygol wedi cadarnhau nad yw'n amau ffliw adar yn yr heidiau y mae'r wyau'n deillio ohonynt;
- (b) bod yr wyau a'u deunydd pacio wedi'u diheintio cyn eu danfon; a
- (c) bod yr wyau'n cael eu cludo mewn cerbydau sydd wedi'u selio gan arolygydd milfeddygol neu yn unol â'i gyfarwyddiadau.

**Gofynion i symud wyau i ganolfan pacio wyau**

**24.** Ni chaniateir symud wyau i ganolfan pacio wyau ddynodedig oni bai—

- (a) eu bod wedi'u pacio mewn deunydd pacio y gellir ei daflu neu ddeunydd pacio sydd wedi'i lanhau a'i ddiheintio yn unol â chyfarwyddiadau'r arolygydd milfeddygol; a
- (b) bod unrhyw berson sy'n cludo'r wyau'n cydymffurfio ag unrhyw ofynion bioddiogelwch a bennwyd gan arolygydd milfeddygol, drwy hysbysiad neu drwy amod trwydded.

**Gofynion mewn lladd-dai**

**25.** Mae'n rhaid i feddiannydd y lladd-dy yr anfonir y dofednod o'r parth ato sicrhau bod gofynion erthygl 63 o'r Gorchymyn cael eu bodloni.

**Gofynion ar gyfer cig dofednod o'r parth**

**26.** Mae cig dofednod yn y parth o ddofednod sy'n deillio o'r parth yn destun gofynion a nodwyd yn erthyglau 63(3) a 63(4) o'r Gorchymyn.

### Gofynion ar gyfer cig dofednod o'r tu allan i'r parth

**27.** Mae cig dofednod yn y parth o ddofednod sy'n deillio o'r tu allan i'r parth yn ddarostyngedig i'r gofynion a nodir yn erthygl 63(3)(a) o'r Gorchymyn.

### Glanhau a diheintio cerbydau sy'n cludo unrhyw beth a allai fod wedi'i halogi

**28.** Mae'n rhaid i unrhyw berson sy'n symud unrhyw ddofednod, aderyn caeth arall, cig, porthiant, tail, slyri, sarn neu unrhyw beth arall a allai fod wedi'i halogi, lanhau a diheintio'r cerbyd ac unrhyw gyfarpar a ddefnyddiwyd i gludo'r peth hwnnw cyn gynted ag y bydd wedi'i ddadlwytho, yn unol ag erthygl 66 o'r Gorchymyn.

### Glanhau a diheintio cerbydau

**29.** Mae'n rhaid i berson sy'n cyrraedd neu'n gadael safle yn y parth mewn cerbyd lanhau a diheintio unrhyw ran o'r cerbyd a allai fod wedi'i halogi yn ddi-oed, yn unol ag erthygl 66 o'r Gorchymyn.

### Mynediad i fannau gwaharddedig

**30.** Ni chaiff unrhyw berson fynd i unrhyw le sy'n destun hysbysiad gwahardd o dan erthygl 79 o'r Gorchymyn ac eithrio yn unol â'r hysbysiad hwnnw neu erthygl 35 o'r Gorchymyn.

## Atodiad 2

## Parth Gwyliadwriaeth

Mae'r Parth Gwyliadwriaeth yn cynnwys yr ardal honno o Gymru sydd wedi'i nodi ar y map yn Atodiad 3, y tu hwnt i'r cylch glas (y Parth Gwarchod) ac o fewn y cylch du o radiws o 10 cilometr sydd yng nghanol cyfeirnod grid SO2753754639. Cyfeirnod grid yr Arolwg Ordnans yw hwn [cyfres Landranger 1:110,000].

### Mesurau mewn Parth Gwyliadwriaeth

### Cofnod o ymwelwyr

**1.** Yn ddarostyngedig i baragraff 5, mae'n rhaid i feddiannydd unrhyw safle lle cedwir dofednod neu adar caeth eraill gadw cofnodion o—
- (a) enw a chyfeiriad unrhyw berson sy'n ymweld â'r safle (oni bai bod yr ymweliad i ran o'r safle yn unig lle mae pobl yn byw a lle na chedwir unrhyw ddofednod neu adar caeth eraill);
- (b) dyddiad yr ymweliad;
- (c) a yw'r person wedi cael unrhyw gysylltiad â dofednod neu adar caeth eraill ar y safle.

### Cofnod o ddofednod

**2.** Mae'n rhaid i feddiannydd unrhyw safle yn y parth lle mae dofednod neu adar caeth eraill yn cael eu cadw
- (a) wneud cofnod o'r holl ddofednod sy'n cyrraedd neu'n gadael y safle hwnnw cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl y symud;
- (b) rhoi gwybod i Weinidogion Cymru ar unwaith pan welir cynnydd yn y niferoedd sy'n sâl neu'n marw neu os bydd gostyngiad arwyddocaol yn nifer y wyau a gynhyrchir neu, pan fo'n berthnasol, os byddant yn bwyta neu'n yfed llai neu wybodaeth berthnasol arall sy'n ymwneud â chynhyrchiant wyau ar y safle.

### Cofnod o symudiadau dofednod

**3.** Yn ddarostyngedig i baragraff 5, mae'n rhaid i unrhyw berson sy'n ymwneud â chludo neu farchnata dofednod neu wyau dofednod yn y parth wneud cofnod cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol o'r holl ddofednod ac wyau dofednod y mae wedi'u cludo neu eu marchnata.

### Symudiadau dofednod i'w cofnodi

**4.** Mae'n rhaid i'r cofnodion y cyfeiriwyd atynt ym mharagraffau 2 a 3 uchod gynnwys—
- (a) swm a disgrifiad (gan gynnwys rhywogaethau'r dofednod a math o wy) a gludwyd neu a farchnatwyd;
- (b) yn achos symud o safle yn y parth—
  - (i) dyddiad y symud o'r safle;
  - (ii) safle cyrchfan (os yw'n hysbys);

(iii) enw a chyfeiriad y person y mae perchnogaeth neu feddiant yn cael ei drosglwyddo iddo neu wedi'i drosglwyddo iddo;

(c) yn achos symud i safle yn y parth—
(i) dyddiad y symud;
(ii) safle y symudwyd ohono (os yw'n hysbys);
(iii) enw a chyfeiriad y person y mae perchnogaeth neu feddiant yn cael ei drosglwyddo iddo neu wedi'i drosglwyddo iddo;

(d) yn achos marchnata heb symud cysylltiedig, enw a chyfeiriad y person y trosglwyddwyd y perchnogaeth iddo a'r dyddiad;

**Cwmpas dyletswyddau cadw cofnodion**

**5.** Nid yw paragraffau 1 a 3 yn gymwys mewn cysylltiad â symud—
(a) wyau'n uniongyrchol i safle manwerthu, ar neu o safle o'r fath neu'n dilyn symudiad o'r fath;
(b) pobl i sŵau, parciau bywyd gwyllt neu (oni bai ei fod yn ofynnol gan Weinidogion Cymru) unrhyw safle arall sy'n agored i'r cyhoedd, cyn belled nad oes gan y cyhoedd fynediad i unrhyw ardal lle mae adar yn cael eu cadw;
(c) y canlynol i unrhyw safle lle mae dofednod neu adar caeth eraill yn cael eu cadw—
(i) unrhyw berson ar hawl tramwy cyhoeddus neu sy'n defnyddio unrhyw hawl mynediad arall i'r safle;
(ii) tresmaswyr;
(iii) unrhyw berson sy'n gweithredu'r Gorchymyn hwn.

**Cyfyngiadau ar symud dofednod, adar caeth eraill a mamaliaid ar ac oddi ar safle**

**6.** (1) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), ni chaiff unrhyw berson symud dofednod, adar caeth eraill na mamaliaid i neu o safle yn y parth lle cedwir dofednod neu adar caeth eraill, oni bai bod y symud wedi'i drwyddedu gan arolygydd milfeddygol neu gan arolygydd o dan gyfarwyddyd arolygydd milfeddygol.

(2) Nid yw is-baragraff (1) yn gymwys i anifeiliaid anwes—
(a) sydd ddim ond yn gallu cael mynediad i ran honno o'r safle lle mae pobl yn byw;
(b) nad ydynt yn dod i gysylltiad â dofednod neu adar caeth eraill ar y safle; ac
(c) nad oes ganddynt fynediad i unrhyw gewyll neu ardaloedd ar y safle lle cedwir dofednod neu adar caeth eraill.

**Mesurau bioddiogelwch**

**7.** Mae'n rhaid i'r meddiannydd ac unrhyw berson sy'n cyrraedd neu'n gadael y safle yn y parth lle cedwir dofednod, neu adar caeth eraill neu wyau—
(a) gymryd mesurau bioddiogelwch fel y mae'n ystyried sydd eu hangen i leihau'r risg o ledaenu ffliw adar i neu o'r safle; a

(b) cydymffurfio ag unrhyw ofynion bioddiogelwch y mae arolygydd milfeddygol neu arolygydd o dan gyfarwyddyd arolygydd milfeddygol, drwy hysbysiad iddo, yn eu gosod.

**Sarn, tail dofednod a slyri**

**8.** (1) Ni chaiff unrhyw berson symud na lledaenu sarn dofednod a ddefnyddiwyd, tail dofednod na slyri dofednod yn y parth oni bai bod arolygydd milfeddygol neu arolygydd o dan gyfarwyddyd arolygydd milfeddygol wedi trwyddedu hynny.

(2) Caiff arolygydd milfeddygol awdurdodi symud tail dofednod os oes mesurau bioddiogelwch priodol yn eu lle, o safle mewn parth gwyliadwriaeth i safle dynodedig, ar gyfer ei drin neu ei storio ar unwaith ar gyfer ei drin wedi hynny, er mwyn lleihau'r risg o ledaenu feirws y ffliw adar.

**Cyfyngiadau ar symud carcasau dofednod ac adar caeth eraill o fewn y parth**

**8A.**

(1) Ni chaiff unrhyw berson symud carcasau dofednod neu adar caeth eraill o safle yn y parth.

(2) Ond caiff arolygydd milfeddygol neu arolygydd o dan gyfarwyddyd arolygydd milfeddygol roi trwydded ar gyfer symud carcasau dofednod neu adar caeth eraill at ddiben eu gwaredu neu gynnal diagnosis arnynt, o safle yn y parth.

**Crynoadau o ddofednod**

**9.** Ni chaiff unrhyw berson ganiatáu i ddofednod neu unrhyw adar caeth eraill gael eu casglu ynghyd mewn unrhyw ffair, marchnad, sioe, arddangosfa neu unrhyw grynhoad arall yn y parth.

**Rhyddhau adar hela**

**10.** (1) Ni chaiff unrhyw berson ryddhau adar hela.

(2) At ddiben y paragraff hwn, mae adar hela'n cynnwys ffesantod, petris, grugieir coch, grugieir du neu rugieir gwyn neu hwyaid sydd wedi'u magu ar gyfer eu saethu.

**Cyfyngiadau ar symud dofednod ac wyau yn y parth**

**11.** (1) Yn ddarostyngedig i baragraff 12, ni chaiff unrhyw berson symud unrhyw ddofednod neu wyau o fewn y parth neu iddo (ac eithrio drwy'r parth ar y ffordd neu'r rheilffordd heb aros), oni bai ei fod yn cydymffurfio â'r holl fesurau bioddiogelwch perthnasol a bennir gan arolygydd milfeddygol mewn amodau trwydded.

(2) Ni chaiff meddiannydd y safle y symudir y dofednod iddo symud y dofednod hynny o'r safle hwnnw am gyfnod o 21 diwrnod o leiaf o'r diwrnod pan gafodd y dofednod hynny eu symud i'r safle.

**Dosbarthu wyau i safleoedd cyfanwerthu neu fanwerthu yn y parth**

**12.** Nid yw paragraff 11 yn gymwys i symud wyau’n uniongyrchol i safleoedd cyfanwerthu neu fanwerthu, neu’n dilyn symudiad o’r fath.

**Mesurau bioddiogelwch**

**13.** Ni chaiff arolygydd milfeddygol roi trwydded o dan baragraff 11 oni bai ei fod yn fodlon y bydd y trwyddedai’n cymryd mesurau bioddiogelwch priodol ac mae’n rhaid i gymryd mesurau o’r fath fod yn amodau’r drwydded.

**Symud dofednod i ladd-dy**

**14.** Caiff arolygydd milfeddygol roi trwydded i symud dofednod o’r tu allan i unrhyw barthau gwarchod a gwyliadwriaeth ffliw adar i ladd-dy o fewn y parth gwyliadwriaeth a symudiadau dilynol y cig sy’n deillio o ddofednod o’r fath.

**Cyfyngiadau ar symud dofednod, wyau, cig dofednod, semen, samplau gwaed a charcasau allan o’r parth**

**15.** (1) Yn ddarostyngedig i baragraff 16, ni chaiff unrhyw berson symud unrhyw ddofednod neu adar caeth eraill, nac unrhyw wyau, semen, samplau gwaed neu garcasau o unrhyw ddofednod neu adar caeth eraill allan o’r parth, oni bai bod y symud—

(a) yn symudiad a nodwyd yn is-baragraff (2); ac
(b) wedi’i drwyddedu gan arolygydd milfeddygol neu gan arolygydd o dan gyfarwyddyd arolygydd milfeddygol.

(2) Mae’r symudiadau y cyfeirir atynt yn is-baragraff (1) yn symudiadau—

(a) dofednod i’w lladd (os bodlonir gofynion paragraff 17);
(b) cywion diwrnod oed sydd wedi deor o wyau sy’n deillio o’r parth gwarchod neu’r parth gwyliadwriaeth neu o wyau a ddaeth i gysylltiad ag wyau o’r fath (os bodlonir gofynion paragraff 18);
(c) cywion diwrnod oed sydd wedi deor o wyau sy’n deillio o’r tu allan i’r parth gwarchod a’r parth gwyliadwriaeth ac a gadwyd ar wahân i wyau a gynhyrchwyd mewn parth o’r fath (os bodlonir gofynion paragraff 19);
(d) dofednod sy’n barod i ddodwy neu ddofednod magu-a-symud i safle neu ran o safle lle nad oes dofednod yn cael eu cadw;
(e) wyau sy’n deor o’r parth—
  (i) i ddeorfa ddynodedig; neu
  (ii) i safle dynodedig i’w defnyddio at ddibenion gwyddonol, diagnositg neu fferyllol

  (os bodlonir gofynion paragraff 20 yn y ddau achos);
(f) wyau i ganolfan pacio wyau ddynodedig (os bodlonir gofynion paragraff 21);
(g) wyau i safle prosesu wyau;
(h) wyau ar gyfer eu gwaredu;
(i) dofednod i filfeddygfa ar gyfer eu trin neu i’r safle y daethant ohono ar ôl dod yn ôl o symudiad o’r fath

(j) semen i safle bridio neu i safle sydd wedi'i ddynodi at ddibenion gwyddonol, diagnostig neu fferyllol;
(k) samplau gwaed i labordy neu filfeddygfa at ddibenion gwyddonol neu ddiagnostig.

**Dosbarthu wyau bwrdd i safleoedd cyfanwerthu a manwerthu**

**16.** Nid yw paragraff 15 yn gymwys i symud wyau bwrdd yn uniongyrchol i safleoedd cyfanwerthu neu fanwerthu, neu'n dilyn symudiad o'r fath.

**Gofynion i symud dofednod o safle yn y parth i ladd-dy dynodedig**

**17.** Ni chaniateir symud dofednod o safle yn y parth i ladd-dy dynodedig y tu allan i'r parth oni bai –

(a) bod y symudiad yn cychwyn o fewn 24 awr ar ôl cwblhau archwiliad milfeddygol o'r dofednod ar y safle, a
(b) bod y gweinidog priodol sy'n gyfrifol am y lladd-dy dynodedig wedi awdurdodi symud y dofednod hynny.

**Gofynion i symud cywion diwrnod oed sydd wedi deor o wyau a gynhyrchwyd yn y parth gwarchod neu wyliadwriaeth neu o wyau a ddaeth i gysylltiad ag wyau o'r fath**

**18.** Ni chaniateir symud cywion diwrnod oed o wyau a gynhyrchwyd yn y parth gwarchod neu wyliadwriaeth neu o wyau sydd wedi dod i gysylltiad ag wyau o'r fath oni bai y cydymffurfir ag unrhyw fesurau bioddiogelwch a bennwyd gan arolygydd milfeddygol drwy hysbysiad neu amod trwydded.

**Gofynion i symud cywion diwrnod oed sydd wedi deor o wyau sy'n deillio o'r tu allan i'r parthau gwarchod a gwyliadwriaeth**

**19.** Ni chaniateir symud cywion diwrnod oed sy'n deillio o'r tu allan i unrhyw barthau gwarchod a gwyliadwriaeth ffliw adar oni bai bod y ddeorfa yn y parth yn cael ei gweithredu mewn ffordd sy'n golygu na ddaw'r wyau hynny i gysylltiad ag wyau neu gywion diwrnod oed o fewn y parth.

**Gofynion i symud wyau sy'n deor o'r parth i ddeorfa ddynodedig neu i safle dynodedig i'w defnyddio at ddibenion gwyddonol, diagnostig neu fferyllol**

**20.** Ni chaniateir symud wyau sy'n deor o'r parth i ddeorfa ddynodedig, neu i safle dynodedig i'w defnyddio at ddibenion gwyddonol, diagnostig neu fferyllol oni bai bod yr wyau a'u deunydd pacio wedi'u diheintio cyn iddynt adael y safle.

**Gofynion i symud wyau i ganolfan pacio wyau**

**21.** Ni chaniateir symud wyau i ganolfan pacio wyau ddynodedig oni bai—

(a) eu bod wedi'u pacio mewn deunydd pacio y gellir ei daflu neu ddeunydd pacio sydd wedi'i lanhau a'i ddiheintio yn unol â chyfarwyddiadau'r arolygydd milfeddygol; a
(b) bod unrhyw berson sy'n cludo'r wyau'n cydymffurfio ag unrhyw fesurau bioddiogelwch a bennwyd gan arolygydd milfeddygol.

### Glanhau a diheintio cerbydau sy'n cludo unrhyw beth a allai fod wedi'i halogi

**22.** Mae'n rhaid i unrhyw berson sy'n cludo unrhyw ddofednod, aderyn caeth arall, cig, porthiant, tail, slyri, sarn neu unrhyw beth arall a allai fod wedi'i halogi, lanhau a diheintio'r cerbyd ac unrhyw gyfarpar a ddefnyddiwyd i gludo'r peth hwnnw cyn gynted ag y bydd wedi'i ddadlwytho, yn unol ag erthygl 66 o'r Gorchymyn.

### Glanhau a diheintio cerbydau

**23.** Mae'n rhaid i berson sy'n cyrraedd neu'n gadael safle yn y parth mewn cerbyd lanhau a diheintio unrhyw ran o'r cerbyd a allai fod wedi'i halogi yn ddi-oed, yn unol ag erthygl 66 o'r Gorchymyn.

## Atodiad 3

**Map yn dangos y Parth Gwarchod (3km) a'r Parth Gwyliadwriaeth (10km) yng nghanol cyfeirnod grid SO2753754639.** Cyfeirnod grid yr Arolwg Ordnans yw hwn [cyfres Landranger 1:110,000].

